Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales

Canllaw hwylus i hawlfraint a metadata



Gwers 4

# Crewyr a defnyddwyr digidol

## Trosolwg

# Canllaw hwylus i hawlfraint a metadata

Mae'r cynlluniau gwersi hyn yn darparu gweithgareddau cam wrth gam i arwain disgyblion drwy'r ystyriaethau a'r penderfyniadau y mae'n rhaid iddyn nhw eu gwneud cyn cyhoeddi delwedd, fideo neu recordiad sain ar lein. Mae'r gwersi'n dechrau yn syml, gan osgoi materion trwyddedu cymhleth, yna cyflwynir elfennau mwy cymhleth.

Rydym wedi cynllunio'r 6 gwers hyn i helpu disgyblion i ddatblygu eu sgiliau digidol yn y meysydd a amlinellir yn y **Fframwaith Cymhwysedd Digidol**, gan ganolbwyntio'n benodol ar hawlfraint a metadata. Ar ddechrau pob cynllun gwers rydym yn nodi **Llinynnau ac Elfennau'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol** sy'n cael eu cwmpasu.

**Mae gwersi 1-3** wedi'u hanelu at Gyfnod Allweddol 2 ac maen nhw'n helpu disgyblion i gael dealltwriaeth sylfaenol o fetadata a hawlfraint.

**Mae gwersi 4-6** wedi'i hanelu at Gyfnod Allweddol 3 ac yn edrych ar rôl hawlfraint wrth ddefnyddio gwaith creadigol pobl eraill ac wrth ddefnyddio ffotograffau o bobl. Gall rhywfaint o'r wybodaeth yng ngwersi 4 - 6 fod yn ddefnyddiol ac yn ddiddorol i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 hefyd.

## Cyn i chi ddechrau

- Mae Casgliad y Werin Cymru yn wefan llawn ffotograffau, dogfennau, fideos a straeon diddorol am hanes, diwylliant a phobl Cymru
- I gael gwybodaeth am hyn ewch i'r adran Blwch Offer i Athrawon sy'n dangos sut i gofrestru a sut y gall disgyblion ddefnyddio'r wefan i wella eu sgiliau cymhwysedd digidol **www.casgliadywerin.cymru/addysg/digidol**
- Mae'r sgiliau a ddatblygir wrth greu cyfrif ac uwchlwytho eitemau i wefan Casgliad y Werin Cymru yn cyfateb yn fanwl â llawer o ofynion y Fframwaith Cymhwysedd Digidol. Dysgwch sut i uwchlwytho eitemau a chreu casgliadau gan ddefnyddio ein canllawiau hawdd eu dilyn i ddefnyddwyr **www.casgliadywerin.cymru/content/y-ganolfan-gymorth**

## Gwers 4

# Crewyr a defnyddwyr digidol

**Amcan y Wers:** Deall eich hawliau a'ch cyfrifoldebau fel crëwr a defnyddiwr gwaith creadigol pobl eraill

**Fframwaith Cymhwysedd Digidol**
*Cyfnod Allweddol 3*
*Dinasyddiaeth: 1.3 Hawliau digidol, trwyddedu a pherchenogaeth; 1.4 Ymddygiad ar-lein a seiberfwlio*
*Cyfnod Allweddol 4*
*Dinasyddiaeth: 1.3 Hawliau digidol, trwyddedu a pherchenogaeth*

# Negeseuon Allweddol

- Mae popeth ar-lein wedi'i greu gan rywun ac mae'r rhan fwyaf ohono wedi'i ddiogelu gan hawlfraint
- Pam cydnabod gwaith pobl eraill? 1. Parch. 2. Dyna'r Gyfraith.
- Yn y DU mae cyfraith hawlfraint wedi'i diffinio gan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 (y DU)
- Gelwir copïo gwaith pobl eraill heb ei gydnabod a'i hawlio fel eich gwaith eich hun yn llên-ladrad
- Gelwir copïo gwaith pobl eraill a'i ddosbarthu heb ganiatâd yn lladrad
- Mae llên-ladrad a lladrad yn gyfystyr â dwyn
- A yw byth yn iawn defnyddio gwaith pobl eraill heb ofyn? Ydy. Mae eithriadau i hawlfraint, gelwir y rhain yn 'ddelio teg' yn y DU (neu 'ddefnydd teg' yn yr Unol Daleithiau)
- Nid yw hawlfraint yn para am byth
- Fel crëwr gallwch drwyddedu eich gwaith creadigol. Mae hyn yn golygu y gallwch ddewis yr hyn y gall pobl eraill ei wneud gydag ef yn gyfreithlon

**Gwybodaeth Ychwanegol**

- Mae'r wers hon yn dilyn ymlaen o wersi 1-3 sydd wedi'u hanelu at ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2. Gall fod yn ddefnyddiol adolygu'r wybodaeth yng Ngwers 1: Hawlfraint - Bod yn ymwybodol o'ch hawliau digidol cyn dechrau gwers 4, er mwyn sicrhau bod gan bawb ddealltwriaeth dda o hawlfraint (add link)
- Mae saith dogfen ychwanegol sy'n cefnogi'r wers hon; **Y Symbol Hawlfraint**, **Diffiniad o Hawlfraint**, **taflen waith Defnyddiwr Digidol**, **taflen wybodaeth Eithriadau i hawlfraint**, **taflen waith**

**y Prosiect Ysgol**, **taflen waith Senarios torri hawlfraint** a'r **daflen waith Creative Commons a'r Parth Cyhoeddus** . Gallwch ddod o hyd i'r rhain ar ddiwedd y wers hon.
- Mae'r wers hon yn cynnwys naw tasg a gall gymryd 5 awr i'w cwblhau. Efallai y byddwch am rannu'r wers hon yn nifer o sesiynau llai. Mae rhai tasgau yn addas ar gyfer gwaith cartref

**Crynodeb o Dasgau**

- **Tasg 1:** Crewyr a defnyddwyr. Trafodaeth dosbarth cyfan
- **Tasg 2:** Taflen waith Defnyddiwr Digidol. Addas ar gyfer gwaith cartref
- **Tasg 3:** Beth yw Llên-ladrad a Lladrad? Chwilio ar-lein a thrafodaeth gyda'r dosbarth
- **Tasg 4:** Llên-ladrad a Lladrad. Ymchwil annibynnol ar lein. Addas ar gyfer gwaith cartref
- **Tasg 5:** Animeiddiad Hawlfraint a Delio Teg
- **Tasg 6:** Ydych chi'n torri cyfraith hawlfraint? Taflen waith Prosiect Ysgol. Addas ar gyfer gwaith cartref
- **Tasg 7:** Ydych chi'n torri hawlfraint? Taflen waith Senarios torri hawlfraint. Gweithgaredd dosbarth
- **Tasg 8:** Taflen waith Creative Commons a'r Parth Cyhoeddus. Addas ar gyfer gwaith cartref
- **Tasg 9:** Rhestr chwarae Hwb

## Tasg 1

**Trafodaeth dosbarth cyfan ar grewyr a defnyddwyr (30 munud)**
Dangoswch y symbol hawlfraint i'r disgyblion. Dechreuwch drafodaeth am hawlfraint, crewyr digidol a defnyddwyr digidol. Gallech rannu'r Diffiniad o Hawlfraint hwn gyda'ch disgyblion ar ôl y dasg hon.

**Cwestiynau i'w trafod:**

- Beth yw'r symbol hwn a beth yw ei ystyr?
- Pa fath o 'waith creadigol' sy'n cael ei ddiogelu gan hawlfraint?
- Beth yw crëwr digidol?
- Ydych chi'n grëwr digidol?
- Pa fath o waith creadigol ydych chi wedi'i wneud ar lein? Er enghraifft, lluniau ar y cyfryngau cymdeithasol, fideos ar YouTube, uwchlwytho prosiectau academaidd i wefannau fel Casgliad y Werin Cymru.
- Ydych chi'n ddefnyddiwr digidol?
- Beth yw defnyddiwr digidol?
- Sut ydych chi wedi defnyddio gwaith creadigol pobl eraill yn yr ysgol?
- Ydych chi wedi defnyddio storïau, gwaith ysgrifenedig neu luniau o bobl eraill yn y dosbarth? Wnaethoch chi edrych arno yn unig? Wnaethoch chi ei gopïo?
- Ydych chi wedi perfformio drama neu ddarn o gerddoriaeth a gafodd ei ysgrifennu gan rywun arall?
- Ydych chi wedi chwilio ar lein am wybodaeth neu luniau? Sut wnaethoch chi eu defnyddio?

**Esboniwch:**

- Mae hawlfraint yn diogelu pob gwaith creadigol ac yn atal eraill rhag ei ddefnyddio heb ganiatâd crëwr y gwaith
- Mae hawlfraint yn diogelu'r mathau hyn o waith: darluniau, paentiadau, gwaith ysgrifennu, cerddoriaeth, dramâu, ffotograffau, ffilmiau, rhaglenni teledu a chynnwys y we
- Mae person sy'n gwneud gwaith creadigol yn cael ei adnabod fel crëwr y gwaith hwnnw

- Mae person sy'n gwneud gwaith creadigol ar-lein yn grëwr digidol
- Mae person sy'n defnyddio cynnyrch yn cael ei adnabod fel defnyddiwr
- Mae person sy'n gweld ac yn defnyddio gweithiau creadigol pobl eraill ar lein yn ddefnyddwyr digidol

## Tasg 2

**Taflen waith Defnyddiwr Digidol (45 munud)**

**Dosbarthwch y Daflen waith Defnyddiwr Digidol. Gweithgaredd annibynnol - gallai'r dasg hon gael ei chwblhau yn y dosbarth neu fel gwaith cartref.**

Meddyliwch amdanoch chi eich hun fel defnyddiwr digidol. Sut ydych chi wedi defnyddio gwaith creadigol pobl eraill? Cwblhewch y daflen waith hon, gan roi enghraifft o lyfr, fideo, ffotograff, darlun, cân a drama yr ydych wedi cael gafael arnyn nhw'n ddigidol. Dylai rhai enghreifftiau fod o waith ysgol a rhai o'ch defnydd personol. Disgrifiwch sut y gwnaethoch chi ddefnyddio'r gwaith creadigol. Er enghraifft, wnaethoch chi edrych arno, ei gopïo, ei newid, creu rhywbeth newydd ohono, ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol, ac ati?

## Tasg 3

**Beth yw Llên-ladrad a Lladrad? (45 munud)**

Rhannwch y dosbarth yn barau neu'n grwpiau bach. Gofynnwch i hanner y grwpiau chwilio ar lein am ystyr 'llên-ladrad' a gofynnwch i'r hanner arall  chwilio am ystyr 'lladrad'. Gofynnwch i bob grŵp esbonio beth yw ystyr llên-ladrad/lladrad. Fel dosbarth trafodwch beth yw'r gwahaniaeth rhyngddyn nhw.

**Llên-ladrad**

- Dwyn syniad neu waith rhywun arall a honni mai eich gwaith chi eich hun ydyw
- Defnyddio gwaith rhywun arall heb gydnabod y ffynhonnell
- Cyflwyno fel syniad neu waith o rywle arall fel rhywbeth newydd a gwreiddiol
- Math o dorri hawlfraint
- Math o ddwyn

https://www.merriam-webster.com/dictionary/plagiarize#legalDictionary
http://www.plagiarism.org/plagiarism-101/what-is-plagiarism

**Lladrad**

- Copïo neu rannu gwaith rhywun arall heb ganiatâd, megis rhaglenni cyfrifiadurol, llyfrau, cerddoriaeth, a ffilmiau
- Math o dorri hawlfraint
- Math o ddwyn
- Mae lladrad weithiau yn ymwneud â gwneud arian, ond hyd yn oed os ydych yn rhannu gwaith rhywun arall am ddim, mae'n dal i fod yn lladrad

https://www.britannica.com/topic/piracy-copyright-crime
https://www.merriam-webster.com/dictionary/piracy

**Esboniwch:**

- Bod pob gwaith creadigol wedi cael ei greu gan rywun, ac mae hyn yn cynnwys popeth sydd ar lein
- Bod cydnabod gwaith pobl eraill, a chael eu caniatâd i ddefnyddio eu gwaith yn dangos Parch. Dyma'r Gyfraith hefyd
- Bod achos o dorri cyfraith hawlfraint yn 'dorri hawlfraint'
- Bod Llên-ladrad a Lladrad yn gyfystyr â dwyn.  Gallwch gael eich erlyn

# Tasg 4

**Ymchwil i Lên-ladrad a Lladrad (1 awr)**
Gweithgaredd annibynnol - gellir cwblhau'r dasg hon fel gwaith cartref. Gofynnwch i'r disgyblion ymchwilio i enghreifftiau enwog o dorri hawlfraint ar lein ac ysgrifennu am un enghraifft. Gofynnwch iddyn nhw ddisgrifio'r achos, pwy enillodd a pham, ac egluro pa rannau o'r gyfraith hawlfraint a gafodd eu torri.

**Ymysg yr achosion enwog mae:**

- Star Wars vs Battlestar Gallactica (y ffilm wreiddiol a'r sioe deledu)
- Apple vs. Microsoft
- Apple vs. Google
- iTunes
- Bandiau cerddoriaeth yn mynd â'i gilydd i'r llys e.e. The Hollies vs Radiohead (ar gyfer 'Creep'), ystâd teulu Marvin Gaye vs Pharrell Williams a Robin Thicke (ar gyfer 'Blurred Lines'), y cyfansoddwyr Thomas Leonard a Martin Harrington vs Ed Sheeran (ar gyfer 'Photograph').

**Dolenni defnyddiol:**
**http://realbusiness.co.uk/law/2014/08/11/6-famous-copyright-cases/**
**http://www.bbc.co.uk/news/entertainment-arts-40813002**
**http://www.bbc.co.uk/news/entertainment-arts-40560477**
**http://www.bbc.co.uk/news/entertainment-arts-39556351**
**https://99designs.co.uk/blog/tips-en-gb/5-famous-copyright-infringement-cases/**

## Tasg 5

**Animeiddiad Hawlfraint a Delio Teg (20 munud)**
**Esboniwch:**

- Nad yw hawlfraint yn para am byth ac mae rhai eithriadau i hawlfraint a restrir yn y gyfraith
- Pa mor hir mae hawlfraint yn para?
  - Ar gyfer gwaith ysgrifennu, artistig, dramatig a cherddorol: Yn y DU mae hawlfraint yn parhau am oes y crëwr a 70 o flynyddoedd ar ben hynny. Yn y rhan fwyaf o wledydd eraill, mae'n parhau am o leiaf oes y crewyr a 50 o flynyddoedd ar ben hynny
  - Ar gyfer mathau eraill o waith (e.e. ffilm, teledu, sain): 50-70 mlynedd ar ôl iddo gael ei ddarlledu (ond gall amrywio)
- Yn y DU mae cyfraith hawlfraint yn cael ei diffinio yn Neddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 (y DU)
- A yw'r gyfraith yn dweud ei bod yn iawn defnyddio gwaith pobl eraill heb ofyn mewn rhai amgylchiadau? Ydy!
- Mae eithriadau i hawlfraint. Gelwir y rhain yn 'ddelio teg' yn y DU (neu'n 'ddefnydd teg' yn yr Unol Daleithiau)

**Dangoswch yr Animeiddiad Hawlfraint a Delio Teg i'r dosbarth**

- Mae'r wybodaeth o'r animeiddiad hwn yn cael ei chrynhoi yn y Daflen wybodaeth Eithriadau i hawlfraint. Rhowch gopi o hwn a Diffiniad o Hawlfraint i'r disgyblion i gefnogi Tasgau 6 a 7.

## Tasg 6

**Ydych chi'n torri cyfraith hawlfraint? Taflen waith Prosiect Ysgol. (30 munud)**
Dosbarthwch y daflen waith Prosiect Ysgol. Gallai'r disgyblion gwblhau'r dasg hon mewn parau neu'n annibynnol ac mae'n addas ar gyfer gwaith cartref.

Rydych yn ysgrifennu prosiect ysgol am berson enwog o Gymru. Rydych wedi gwneud llawer o waith ymchwil ar gyfer eich prosiect, mewn llyfrau ac ar lein. Rydych wedi copïo testun a delweddau o'r we ac wedi eu gludo i'ch prosiect ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys ffotograffau neu ddelweddau o'r person enwog.

Pa rai o'r sefyllfaoedd isod sydd o fewn cyfraith hawlfraint a pha rai sy'n torri hawlfraint? Eglurwch pam.

**Atebion i'r daflen waith Prosiect Ysgol**

**Rydych wedi copïo testun a delweddau o'r we ac wedi eu gludo i'ch prosiect ysgol. Bydd eich prosiect yn cael ei weld gan eich athro a phobl eraill yn eich dosbarth o bosibl**

> **Ateb:** Gellir caniatáu hyn o fewn cyfraith hawlfraint. Mae cyfraith hawlfraint yn atal pobl rhag copïo gwaith rhywun a'i addasu, fodd bynnag, mae eithriadau. Gellir copïo a defnyddio darnau cyfyngedig o weithiau creadigol at ddibenion addysgu ac addysg ac ar gyfer astudiaethau preifat.

**Rydych yn gwneud poster i'w arddangos yn eich ysgol drwy ddefnyddio'r cynnwys yr ydych wedi'i gopïo oddi ar y we. Mae eich poster yn cael ei ddangos ar wefan yr ysgol**

> **Ateb:** Gellir caniatáu hyn o fewn cyfraith hawlfraint. Mae cyfraith hawlfraint yn atal pobl rhag copïo gwaith rhywun, ei addasu a'i roi ar y we heb ganiatâd, fodd bynnag, mae yna eithriadau. Gellir copïo a defnyddio darnau cyfyngedig o weithiau creadigol at ddibenion addysgu ac addysg ac ar gyfer astudiaethau preifat. Dylech sicrhau eich bod yn cydnabod y crëwr ac asesu a yw eich defnydd o'r gwaith yn 'dderbyniol'. A oes effaith ariannol ar berchennog yr hawlfraint oherwydd eich bod yn defnyddio ei waith? Hyd yn oed os nad ydych yn gwneud elw, a all fod ar ei golled yn ariannol oherwydd bod ei ddelwedd ar gael am ddim drwy eich gwaith chi? Os gallech fod yn effeithio ar y crëwr yn ariannol, yna gallai hyn fod yn achos o dorri hawlfraint.

**Mae eich ysgol yn ceisio codi arian i elusen felly rydych yn defnyddio rhai o'r delweddau yr ydych wedi eu copïo oddi ar y we ac yn gwneud mygiau i'w gwerthu**

> **Ateb:** Mae hyn yn achos o dorri hawlfraint - mae cyfraith hawlfraint wedi cael ei thorri. Mae cyfraith hawlfraint yn atal pobl rhag copïo gwaith rhywun a'i werthu heb ganiatâd.

## Tasg 7

**Ydych chi'n torri cyfraith hawlfraint? Taflen waith Senarios torri hawlfraint. (30 munud)**

Rhannwch y dosbarth yn 4 grŵp a rhowch un o'r senarios i bob grŵp oddi ar y Daflen waith Senarios torri hawlfraint.

**Gofynnwch i bob grŵp:**

- Benderfynu a ydych yn torri cyfraith hawlfraint
- Egluro pam
- Beth allech chi ei wneud i sicrhau nad ydych yn torri cyfraith hawlfraint?

**Atebion i Senarios torri hawlfraint**

**Rydych mewn band ac rydych yn canu fersiwn o gân rhywun arall. Mae'n mynd i rif un yn y siartiau ac yn gwneud llawer o arian i chi!**

> **Ateb:** Mae cyfraith hawlfraint wedi ei thorri. Mae cyfraith hawlfraint yn atal pobl rhag copïo gwaith rhywun a rhag perfformio, dangos neu chwarae eu gwaith yn gyhoeddus heb ganiatâd. Os byddwch yn cael caniatâd gan gyfansoddwr y gân cyn i chi wneud eich fersiwn chi yna ni fyddwch yn torri'r gyfraith. Os bydd yn rhoi caniatâd i chi ddefnyddio'r gân gall hefyd ofyn am 'gyfran' o'r elw.

**Rydych yn copïo llawer o wahanol fideos o You Tube ac yn creu eich 'stwnsh' eich hun. Rydych yn ei roi ar eich gwefan eich hun**

**Ateb:** Efallai fod cyfraith hawlfraint wedi ei thorri. Mae cyfraith hawlfraint yn atal pobl rhag copïo gwaith rhywun, ei addasu a'i roi ar y we heb ganiatâd, fodd bynnag, mae yna eithriadau. Gellir copïo darnau cyfyngedig o weithiau creadigol a'u defnyddio ar gyfer beirniadaeth, adolygu ac adrodd ar ddigwyddiadau cyfredol, at ddibenion addysgu ac addysg, ac ar gyfer parodïau, gwawdluniau a pastiches. Yn yr achosion hyn dylech gydnabod y crëwr gwreiddiol a chael ei ganiatâd os yn bosibl. Os nad ydych wedi cydnabod y crëwr ac os nad oedd y 'stwnsh' wedi'i greu at y dibenion hyn yna efallai eich bod wedi torri cyfraith hawlfraint.

**Rydych yn ysgrifennu cân ddoniol i'w pherfformio gyda'ch ffrindiau sy'n gwneud hwyl am ben eich hoff sêr pop. Mae'r alaw a rhai o'r geiriau yn dod o ganeuon y sêr pop. Rydych yn gwneud fideo ohoni ac yn ei roi ar YouTube**

**Ateb:** Efallai na fydd cyfraith hawlfraint wedi'i thorri. Mae cyfraith hawlfraint yn atal pobl rhag copïo gwaith rhywun a rhag perfformio, dangos neu chwarae eu gwaith yn gyhoeddus heb ganiatâd, fodd bynnag mae eithriadau. Gellir copïo darnau cyfyngedig o weithiau creadigol a'u defnyddio ar gyfer parodïau, gwawdluniau a pastiches. Os cafodd y gân a'r fideo eu creu ar gyfer y dibenion hyn, yna nid ydych wedi torri cyfraith hawlfraint.

**Rydych yn tynnu llun o gelf stryd/graffiti trawiadol ac yn ei ddefnyddio ar gyfer clawr llyfr yr ydych yn ei gyhoeddi**

**Ateb:** Efallai y bydd cyfraith hawlfraint wedi'i thorri neu efallai na fydd wedi'i thorri. Mae graffiti yn waith artistig ac, yn ddamcaniaethol, yn cael ei ddiogelu gan gyfraith hawlfraint. Efallai fod y graffiti wedi'i ddiogelu hyd yn oed os cafodd ei gynhyrchu'n anghyfreithlon - nid yw cyfraith hawlfraint yn dweud dim am statws cyfreithiol y gwaith creadigol. Mae cyfraith hawlfraint yn atal pobl rhag copïo gwaith rhywun heb ganiatâd a rhag dosbarthu copïau ohono boed am ddim neu am dâl. Os oes modd, dylech gydnabod y

crëwr a chael ei ganiatâd cyn cyhoeddi eich llyfr. Fodd bynnag, gan fod nifer o artistiaid graffiti yn ddienw, efallai na fyddwch yn gallu canfod y crëwr er mwyn cael ei ganiatâd! Os byddwch yn cyhoeddi'r ddelwedd beth bynnag, efallai y bydd yn rhaid i'r artist gymryd camau cyfreithiol a phrofi mai ei waith ef ydyw er mwyn dangos ei fod yn berchen ar yr hawlfraint.

## Tasg 8

**Taflen waith Creative Commons a'r Parth Cyhoeddus (1 awr)**

Dosbarthwch y daflen waith Creative Commons a'r Parth Cyhoeddus. Gallai'r disgyblion gwblhau'r dasg hon mewn parau neu'n annibynnol ac mae'n addas ar gyfer gwaith cartref.

A oes ffordd hawdd o gymryd delweddau (neu waith creadigol arall) o'r rhyngrwyd heb boeni am dorri cyfraith hawlfraint? Oes. Mae rhai crewyr yn hapus i rannu eu gwaith creadigol rhad ac am ddim, ar yr amod y byddwch yn eu cydnabod.

Ymchwiliwch i Creative Commons ar lein ac atebwch y cwestiynau canlynol:

**Beth yw Creative Commons?**

**Ateb:** Sefydliad lle mae crewyr yn rhannu eu gwaith er mwyn i bobl eraill ei ddefnyddio heb dorri hawlfraint yw Creative Commons.

**Beth yw trwydded Creative Commons?**

**Ateb:** Math arbennig o drwydded hawlfraint, a grëwyd gan Creative Commons, yw trwyddedau Creative Commons, sydd ar gael am ddim i unrhyw un eu defnyddio. Mae pob trwydded yn rhoi gwybodaeth am yr hyn y bydd y crëwr yn gadael i chi ei wneud gyda'i waith. Efallai y bydd gennych hawl i gopïo, rhannu ac addasu'r gwaith, ar yr amod eich bod yn dilyn telerau'r drwydded. Gall y

telerau gynnwys cydnabod y crëwr, darparu dolen i'r drwydded, a dweud a ydych wedi gwneud newidiadau i'r gwaith gwreiddiol. Mae rhai trwyddedau yn caniatáu i chi ddefnyddio'r gwaith at ddibenion masnachol hyd yn oed. **creativecommons.org/share-your-work/**

**Beth yw Parth Cyhoeddus?**

**Ateb:** Dywedir bod gwaith creadigol nad yw'n cael ei ddiogelu gan hawlfraint yn y Parth Cyhoeddus. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar y defnydd o'r gwaith hwn ac nid oes rhaid i chi gydnabod y crëwr.

**Gwybodaeth Ychwanegol. Am Creative Commons:**

Mae'r symbol hwn yn dangos bod gwaith yn y Parth Cyhoeddus oherwydd nad yw cyfreithiau hawlfraint yn berthnasol iddo, er enghraifft oherwydd bod hawlfraint wedi dod i ben

Mae'r symbol hwn yn dangos bod gwaith yn y Parth Cyhoeddus oherwydd bod y crëwr wedi rhoi'r gwaith i'r cyhoedd i'w ddefnyddio'n rhad ac am ddim. Mae hyn yn cael ei adnabod hefyd fel CCO (trwydded sero Creative Commons)

Dychmygwch eich bod wedi tynnu llun gwirioneddol anhygoel ac yr hoffech ei rannu ar lein. Rydych yn fodlon i bobl eraill ei gopïo a'i ddefnyddio, ond peidio ei newid. Gall pobl eraill wneud elw ohono hyd yn oed, ond rydych am gael cydnabyddiaeth fel y crëwr. Mae trwyddedau Creative Commons yn caniatáu i chi, fel crëwr, ddewis beth mae pobl eraill yn gallu ei wneud gyda'ch gwaith creadigol. Defnyddiwch y ddolen isod i ganfod pa drwydded y byddai ei hangen arnoch chi. Ysgrifennwch enw'r drwydded a chopïwch symbolau'r drwydded. **https://creativecommons.org/share-your-work/**

Ateb: Attribution-NoDerivatives 4.0 Rhyngwladol (CC drwy- ND 4.0)

## Tasg 9

**Gofynnwch i'r disgyblion gwblhau'r cwis rhestr chwarae Hwb hwn i brofi eu gwybodaeth (10 muned)**

Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales

# Symbol Hawlfraint

©

# Diffiniad Hawlfraint


- Mae hawlfraint yn diogelu eich gwaith ac yn atal eraill rhag ei ddefnyddio heb ganiatâd
- Mae eich gwaith wedi'i ddiogelu dan hawlfraint yn awtomatig – does dim rhaid gwneud cais neu dalu costau. Does dim rhestr o weithiau dan hawlfraint yn y DU.
- Gallwch chi roi'r symbol hawlfraint ©, eich enw a'r flwyddyn greu ar eich gwaith. Nid yw hyn yn gwneud y gwaith yn fwy neu llai diogel.
- Mae hawlfraint yn diogelu: darluniau, paentiadau, rhyddiaith, cerddoriaeth, drama, ffotograffau, ffilmiau, rhaglenni teledu a chynnwys gwefannau.

www.gov.uk/copyright/overview


# Defnyddiwr Digidol




**Lyfr:**




**Fideo:**



**Ffotograff:**



**Darluniau/Paentiadau:**



**Cân:**



**Dramâu:**

# Taflen wybodaeth Eithriadau i hawlfraint

**Rheolau pwysig pan fyddwch yn defnyddio gwaith creadigol pobl eraill**

- Dylech ddarganfod pwy sydd wedi'i greu
- Dylech ofyn am ei ganiatâd
- Dylech gydnabod y crëwr
- Dylech dalu am wneud hynny os bydd angen

**Ond mae rhai sefyllfaoedd lle mae'n iawn defnyddio gwaith creadigol pobl eraill heb ofyn neu heb dalu. Mae'r rhain yn cynnwys:**

- Addysgu, addysg, ymchwil ac astudiaethau preifat
- Beirniadaeth ac adolygiadau ac adroddiadau newyddion
- Parodïau, gwawdluniau a pastiches
- Os bydd y crëwr wedi caniatáu hynny (e.e. Creative Commons)

**Ystyr delio teg:**

- Defnyddio rhan o'r gwaith yn unig
- Defnydd anfasnachol (di-elw) nad yw'n achosi i'r crëwr fod ar ei golled yn ariannol
- Cydnabod y crëwr pryd bynnag y bo modd

**Mae ein hanimeiddiad Hawlfraint a Delio Teg yn rhoi crynodeb da o hyn**

**I gael rhagor o wybodaeth gweler tudalennau gwe Llywodraeth y DU ar Hawlfraint:**
https://www.gov.uk/copyright
https://www.gov.uk/guidance/exceptions-to-copyright#fair-dealing

**Diffiniadau**

**Parodi**
Gwaith ysgrifenedig neu gerddorol lle y caiff yr awdur neu'r gwaith ei efelychu er doniolwch
http://www.wordcentral.com/cgi-bin/student?book=Student&va=parody

**Gwawdlun**
Gorliwio gweithredoedd, rhannau, neu nodweddion rhywun neu rywbeth fel arfer er doniolwch
http://www.wordcentral.com/cgi-bin/student?book=Student&va=caricature

**Pastiche**
Gwaith llenyddol, artistig, cerddorol, neu bensaernïol sy'n efelychu arddull gwaith blaenorol
https://www.merriam-webster.com/dictionary/pastiche

Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales

# Prosiect Ysgol

*Rydych yn ysgrifennu prosiect ysgol am berson enwog o Gymru. Rydych wedi gwneud llawer o waith ymchwil ar gyfer eich prosiect, mewn llyfrau ac ar lein. Rydych wedi copïo testun a delweddau o'r we ac wedi eu gludo i'ch prosiect ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys ffotograffau neu ddelweddau o'r person enwog.*

*Pa rai o'r sefyllfaoedd isod sydd o fewn cyfraith hawlfraint a pha rai sy'n torri hawlfraint?* ***Eglurwch pam.***

**Rydych wedi copïo testun a delweddau o'r we ac wedi eu gludo i'ch prosiect ysgol. Bydd eich prosiect yn cael ei weld gan eich athro a phobl eraill yn eich dosbarth o bosibl**

**Rydych yn gwneud poster i'w arddangos yn eich ysgol drwy ddefnyddio'r cynnwys yr ydych wedi'i gopïo oddi ar y we. Mae eich poster yn cael ei ddangos ar wefan yr ysgol**

**Mae eich ysgol yn ceisio codi arian i elusen felly rydych yn defnyddio rhai o'r delweddau yr ydych wedi eu copïo oddi ar y we ac yn gwneud mygiau i'w gwerthu**

# Taflen waith Senarios torri hawlfraint

*Rhannwch y dosbarth yn 4 grŵp a rhowch un o'r senarios i bob grŵp oddi ar y Daflen waith Senarios torri hawlfraint.*

*Gofynnwch i bob grŵp:*

- *Benderfynu a ydych yn torri cyfraith hawlfraint*
- *Egluro pam*
- *Beth allech chi ei wneud i sicrhau nad ydych yn torri cyfraith hawlfraint?*

**Rydych mewn band ac rydych yn canu fersiwn o gân rhywun arall. Mae'n mynd i rif un yn y siartiau ac yn gwneud llawer o arian i chi!**

**Rydych yn copïo llawer o wahanol fideos o You Tube ac yn creu eich 'stwnsh' eich hun. Rydych yn ei roi ar eich gwefan eich hun**

**Rydych yn tynnu llun o gelf stryd/graffiti trawiadol ac yn ei ddefnyddio ar gyfer clawr llyfr yr ydych yn ei gyhoeddi**

**Rydych yn ysgrifennu cân ddoniol i'w pherfformio gyda'ch ffrindiau sy'n gwneud hwyl am ben eich hoff sêr pop. Mae'r alaw a rhai o'r geiriau yn dod o ganeuon y sêr pop. Rydych yn gwneud fideo ohoni ac yn ei roi ar YouTube**

# Taflen waith Creative Commons a'r Parth Cyhoeddus

*A oes ffordd hawdd o gymryd delweddau (neu waith creadigol arall) o'r rhyngrwyd heb boeni am dorri cyfraith hawlfraint? Oes. Mae rhai crewyr yn hapus i rannu eu gwaith creadigol rhad ac am ddim, ar yr amod y byddwch yn eu cydnabod.*

*Ymchwiliwch i Creative Commons ar lein ac atebwch y cwestiynau canlynol:*

**Beth yw Creative Commons?**

**Beth yw trwydded Creative Commons?**

**Beth yw Parth Cyhoeddus?**

**Dychmygwch eich bod wedi tynnu llun gwirioneddol anhygoel ac yr hoffech ei rannu ar lein. Rydych yn fodlon i bobl eraill ei gopïo a'i ddefnyddio, ond peidio ei newid. Gall pobl eraill wneud elw ohono hyd yn oed, ond rydych am gael cydnabyddiaeth fel y crëwr. Mae trwyddedau Creative Commons yn caniatáu i chi, fel crëwr, ddewis beth mae pobl eraill yn gallu ei wneud gyda'ch gwaith creadigol. Defnyddiwch y ddolen isod i ganfod pa drwydded y byddai ei hangen arnoch chi. Ysgrifennwch enw'r drwydded a chopïwch symbolau'r drwydded**

**https://creativecommons.org/share-your-work/**